| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Hydref 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Gwyneth Ellis (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) / Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Awdur yr adroddiad** | Bryn Williams (Rheolwr Asedau) |
| **Teitl** | Strategaeth Rheoli Asedau 2024 - 2029 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli Asedau arfaethedig ar gyfer 2024-2029 (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Asedau a adolygwyd ac a ddiweddarwyd er mwyn i'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch ei mabwysiadu.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 (Atodiad 1).

3.2 Bod Aelodau'r Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mabwysiadwyd y Strategaeth Rheoli Asedau presennol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 gyda'r bwriad o'i hadolygu ar ôl 5 mlynedd – yn 2021. Felly mae'n hen bryd adolygu'r Strategaeth Rheoli Asedau – achosodd effaith y pandemig ar flaenoriaethau a rhaglenni gwaith beth oedi.

4.2 Mae Strategaeth Rheoli Asedau arfaethedig 2024-2029 yn Atodiad 1.

4.3 Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd yn ceisio alinio cynlluniau asedau a chanlyniadau bwriadedig y strategaeth gyda themâu strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol, gan wneud yn siŵr bod ein hasedau yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yma. Ar gyfer y strategaeth hon rydym ni'n cynnig bod canlyniad cyntaf Strategaeth 2017-2021 yn cael ei ddiwygio ac yn cael ei wneud yn egwyddor sylfaenol wrth wneud penderfyniadau ynghylch ein portffolio eiddo. Sef: ***Byddwn yn darparu'r asedau cywir, yn y lle cywir ac yn y cyflwr cywir i ddiwallu anghenion gwasanaethau rŵan ac i'r dyfodol, gan ystyried pwy yw'r perchennog gorau ar gyfer pob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.***

4.4 Mae'r pedwar canlyniad blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi yn Strategaeth Rheoli Asedau 2024-2029, gan gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor:

- **Gweithredu ar Newid Hinsawdd ac Adfer Natur –** a fyddai'n cynnwys gwella perfformiad adeiladau, lleihau ôl-troed adeiladau, hwyluso llai o deithio, atafaelu mwy o garbon o eiddo presennol a newydd, a gwella bioamrywiaeth ein safleoedd ac ati. Yn ogystal â gwella gwytnwch ein hasedau yn wyneb newid hinsawdd a'n dealltwriaeth ni o hynny
- **Moderneiddio Addysg –** bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf gan yr Adran Addysg ond bydd hefyd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn adeiladau ein hysgolion dros y pum mlynedd nesaf
- **Adfywio –** lle bydd y Cyngor yn ymyrryd yn uniongyrchol yn y farchnad eiddo i hyrwyddo adfywio a datblygu economaidd, yn enwedig yng nghanol ein trefi
- **Dulliau Gweithio Newydd a Chydweithio –** gan edrych yn benodol ar ein portffolio o swyddfeydd a sut mae angen ei newid yn sgil y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref (ar ôl COVID), ynghyd â datblygu cyfleoedd i gydweithio i greu model perchnogaeth a gweithredu sy'n gynaliadwy

4.5 Bydd cyflawni'r canlyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gael y cyllid angenrheidiol drwy fanteisio ar gyfleoedd i ddenu cyllid allanol a blaenoriaethu'r adnoddau prin sydd gennym ni fel Cyngor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022-2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r strategaeth hon yn cefnogi thema Sir Ddinbych Wyrddach, gan fod rheoli ynni yn well a'r posibilrwydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy o fewn y portffolio cyfan yn mynd i helpu'r Cyngor i gyrraedd ei darged Carbon Sero-Net a bod yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

5.2. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi'r thema Sir Ddinbych Ffyniannus gan fod ein portffolio asedau yn gallu gwella ffyniant economaidd os caiff swyddfeydd dros ben eu defnyddio fel llety ar gyfer busnesau bach neu eu gwaredu, er enghraifft.

5.3. Mae'r strategaeth yn cefnogi'r thema Dysgu a Thyfu Sir Ddinbych drwy gefnogi'r gwaith o greu cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu, gan gefnogi codi adeiladau ysgol newydd a gwaith ailwampio mawr i'r stad ysgolion.

5.4. Mae'r egwyddor sylfaen 'yr adeiladau cywir, yn y lle cywir' hefyd yn cefnogi'r thema 'Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad' – gan ddefnyddio asedau i gefnogi dulliau gweithio hyblyg a phartneriaethau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r strategaeth wedi'i datblygu'n fewnol ac felly ni yw wedi achosi unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor. Yn amlwg, mae gan benderfyniadau a wneir am eiddo gost ynghlwm wrthynt. Bydd cyflawni'r canlyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gael y cyllid angenrheidiol, drwy fanteisio ar gyfleoedd i ddenu cyllid allanol a blaenoriaethu'r adnoddau prin sydd gennym fel Cyngor.

6.2. Gwneir yr holl benderfyniadau ynghylch eiddo drwy fecanweithiau sy'n bodoli'n barod, yn cynnwys drwy'r Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Cabinet ac ati, i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol ac yn destun craffu.

6.3. Bydd pob gwasanaeth yn cael ei effeithio, gan fod pob gwasanaeth yn defnyddio eiddo. Bydd gwasanaethau yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch unrhyw benderfyniad a fydd yn effeithio arnynt neu'r ffordd maent yn darparu eu gwasanaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn un cadarnhaol (Atodiad 2). Roedd y sgôr ar gyfer cynaliadwyedd y dull yn 3 seren o 4. Aseswyd bod cyfraniad cadarnhaol at 4 o'r 7 nod lles, a chyfraniad niwtral at y 3 arall.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar lefel swyddogion drwy'r Cynlluniau Portffolio amrywiol, sy'n grwpio tir ac adeiladau gydag eiddo o fathau tebyg gyda'i gilydd yn hytrach na fesul gwasanaethau tebyg. Mae'r Cynlluniau Portffolio hyn wedi'i datblygu drwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda swyddogion y Cyngor sydd naill ai'n defnyddio neu'n rheoli tir neu adeiladau yn y portffolio, a thrwy ddadansoddi ychydig o fesurau perfformiad sy'n berthnasol i'r eiddo.

8.2. Cafodd y strategaeth ei chyflwyno i dîm y Prif Weithredwr fis Ebrill, lle cafodd ei chymeradwyo gyda diwygiadau. Mae'r strategaeth wedi'i chylchredeg i'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer sylwadau ehangach. Cafodd y strategaeth ei hystyried gan y Grŵp Rheoli Asedau a 1 Mai, lle cafodd ei derbyn cymeradwyo diwygiadau. Mae'r Aelod Arweiniol wedi cyfrannu at y strategaeth ddrafft, ynghyd â'r Cabinet drwy sesiynau briffio. Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'r strategaeth ar 12 Mai, gan ddarparu adborth cadarnhaol.

8.3. Ymgynghorwyd â'r Landlord Corfforaethol, sydd wedi darparu'r datganiad canlynol: *Mae eiddo yn cynrychioli gwariant mawr a goblygiadau cynhyrchu carbon i'r Cyngor. Mae'n adnodd strategol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ac felly mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn ddogfen strategol graidd a fydd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl y sir heddiw ac i'r dyfodol. Bydd y Strategaeth Rheoli Asedau yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'i asedau yn effeithlon ac yn gynaliadwy, a bydd yn rhaid craffu arni a'i diweddaru'n rheolaidd wrth i wybodaeth berthnasol ddod i law drwy'r Cynlluniau Portffolio.*

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 O ystyried y cyfyngiadau ariannol sy’n wynebu’r Cyngor rŵan ac yn y tymor canolig, mae’n hollbwysig bod y Cyngor yn manteisio i’r eithaf ar werth ac effeithlonrwydd yr asedau a ddefnyddir ganddo ac sydd yn ei feddiant. Mae’r Strategaeth Rheoli Asedau yn nodi’r angen i flaenoriaethu’r adnoddau cyfyngedig, manteisio ar gyfleoedd i ddenu cyllid allanol ble bynnag y bo’n bosibl, ystyried effaith dulliau gweithio newydd ar ein hasedau a datblygu cyfleoedd i gydweithio ble bynnag y bo’n bosibl.

## 10. Beth yw’r peryglon ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1 Does dim risgiau sylweddol yn gysylltiedig â datblygu a mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972